

Ymgynghoriad ar Reoliadau Addysg (Uned Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati)(Cymru) 2014 drafft a chanllawiau cysylltiedig

**Ffurflen ymateb
i'r
ymgyngoriad**

Eich enw: **Rebecca Williams**

Sefydliad (os yw'n berthnasol):
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)
[PEIDIWCH CYFIEITHU'R ENW HWN]

e-bost/rhif ffôn:
rebecca@athrawon.com / 01970 639950

Eich cyfeiriad:
UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **23 Mehefin 2014** i:

Y Gangen Lles Disgyblion
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: YmgynghoriadRheoliadauUCD@cymru.gsi.gov.uk

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael eich barn ar Reoliadau drafft Llywodraeth Cymru ar gyfansoddiad a swyddogaethau pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion a'r gweithdrefnau ar weithredu pwyllgorau rheoli ar gyfer yr unedau hyn, a hefyd ar y canllawiau statudol drafft cysylltiedig. Mae'r ddogfen yn gofyn cwestiynau sy'n ymwneud â darpariaethau penodol yn y Rheoliadau.

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau o ran aelodaeth arfaethedig y pwyllgorau rheoli (fel y nodir yn adran 3 o'r canllawiau statudol drafft)?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Wn i ddim	<input checked="" type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	--------------------------	------------------	-------------------------------------

Sylwadau

Ar y cyfan mae'r categorïau a niferoedd aelodaeth yn glir.

Yr unig categori amwys yw'r Aelodau Nawdd; mae gennym amheuaeth ynglŷn â pha mor glir yw hi pwy all fod yn Aelod Nawdd, ac ar ba sail y gwneir y penderfyniad i benodi Aelod(au) Nawdd ai peidio.

Yn ogystal, mae diffyg cysondeb o ran terminoleg yn y Gymraeg rhwng y Canllawiau – sy'n defnyddio'r term Aelodau Nawdd, a'r Rheoliadau – sy'n defnyddio'r term Noddwr Aelodau. Nid ydym yn teimlo'n gryf naill ffordd neu'r llall, dim ond bod angen sicrhau cysondeb.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau o ran dirprwyo swyddogaethau penodol i bwyllgorau rheoli gan awdurdodau lleol?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Wn i ddim	<input type="checkbox"/>
-----	--------------------------	----------------	-------------------------------------	-----------	--------------------------

Sylwadau

Ysgrifennwch yma:.....

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno na ddylai rhai swyddogaethau penodol gael eu dirprwyo gan awdurdodau lleol i bwyllgorau rheoli (fel y nodir ym mharagraff 4.1.2 o'r canllawiau drafft statudol)?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Wn i ddim	<input checked="" type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	--------------------------	------------------	-------------------------------------

Sylwadau

Ysgrifennwch yma:.....

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno na ddylai rhai swyddogaethau penodol gael eu dirprwyo gan bwyllgorau rheoli i is-bwyllgor, aelod, neu'r athro â gofal (fel y nodir ym mharagraff 7.1.2 o'r canllawiau statudol drafft)?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Wn i ddim	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	-----------	--------------------------

Sylwadau

Ysgrifennwch yma:.....

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n credu bod canllawiau statudol drafft Rheoliadau Addysg (Uned Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014 yn eich helpu i ddehongli'r ddeddfwriaeth?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Wn i ddim	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	-----------	--------------------------

Sylwadau

Yn bendant. Mae'r canllawiau'n glir iawn, a strwythur y ddogfen yn ei gwneud hi'n hwylus iawn i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen. Nid yw'r eirfa'n or-dechnegol, ac mae'r atodiadau'n cynnwys templedi defnyddiol.

Mi ddylai fod yn ganllaw eithriadol o ddefnyddiol i bawb sy'n ymwneud â'r broses o sefydlu a gweithredu Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion pan ddaw'r drefn newydd i rym.

Cwestiwn 6 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt:

Sylwadau:

- **Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau ac yn y Canllawiau (e.e. 1.4.1, 2.3.3) at achosion pan na fydd yr Athro â Gofal yn aelod o'r Pwyllgor Rheoli; nid ydym yn teimlo ei bod hi'n ddigon clir yn y canllawiau beth fyddai'n dderbyniol fel rheswm dros beidio bod yn aelod o'r Pwyllgor, neu beth fyddai'r amgylchiadau fyddai'n ei gwneud hi'n amhriodol i fod yn aelod.**
- **Nid oes unrhyw sôn yn y Canllawiau am hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Rheoli; mae llywodraethwyr ysgolion erbyn hyn yn derbyn hyfforddiant, ac er bod cyfrifoldebau aelodau'r Pwyllgorau Rheoli hyn yn fwy cyfyng, teimlwn y byddai rhoi hyfforddiant yn fanteisiol – yn enwedig os oes cyfrifoldeb ganddynt dros arfarnu staff addysgu'r Uned**

- **Mae angen ail-edrych ar y troednodiadau sy'n perthyn i baragraffau 5.2.4 a 7.3.5, gan fod y Gymraeg yn lletchwith**

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: